

Archwiliad Dwfn o Blannu Coed – Cylch Gorchwyl

Diben

Nodi a blaenoriaethu cyfres o gamau gweithredu i sicrhau bod mwy o goed yn cael eu plannu ac i oresgyn rhwystrau sy'n gysylltiedig â:

1. Creu coetiroedd, gan ystyried y lefelau heriol o blannu coed sydd eu hangen er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.
2. Defnyddio coed o Gymru ym maes adeiladu a'r angen i ddatgarboneiddio tai Cymru.
3. Hyrwyddo gwaith i blannu coed mewn cymunedau

Bydd yr archwiliad dwfn yn:

- Ystyried pryderon a rhwystrau
- Dysgu oddi wrth waith a wnaed yn y gorffennol ar greu coetiroedd, oddi wrth gamau gweithredu y rhoddwyd cynnig arnynt eisoes, ac yn edrych ar y gwersi a ddysgwyd, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd yn sgil cynllun plannu coed Mbale
- Nodi ffyrdd o ysgogi newid, pwy ddylai arwain ar bob maes, beth yw'r blaenoriaethau
- Nodi unrhyw ofynion o ran cymorth ychwanegol neu newidiadau i ddeddfwriaeth

Aelodaeth o'r grŵp

Bydd yr archwiliad dwfn yn cael ei gynnal gan grŵp bach o arbenigwyr o dan arweiniad y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd. Bydd yr arbenigwyr hynny'n dod o'r sector ei hun ac o'r tu allan iddo er mwyn cael mewnbwn a her o'r tu allan. Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan y Dirprwy Weinidog, a bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r ysgrifenyddiaeth. Dewiswyd yr aelodau ar sail eu harbenigedd a'u profiad unigol; ac o'r herwydd, ni chânt anfon dirprwyon yn eu lle.

Dyma'r aelodau:

Enw	Sefydliad / Rôl
Siân Barnes	Arweinydd Proffesiynol – Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cyngor Sir Powys
Amanda Davies	Prif Weithredwr, Pobl
Gareth Davies	Cyfarwyddwr, Coed Cymru
Anthony Geddes	Rheolwr Cenedlaethol Cymru, Confor (Y Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd)
Sarah Jennings	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol, CNC
Jenny Knight	Ysgolhaig Doethurol Forest Edge, Sefydliad Ymchwil Coedwigoedd Birmingham
Mark McKenna	Cyfarwyddwr, Down to Earth

Gary Newman	Prif Weithredwr, Wood Knowledge Wales
Maria Wilding	Rheolwr Rhaglen, Llais y Goedwig
Karel Williams	Athro Cyfrifyddu a'r Economi Wleidyddol, Prifysgol Manceinion
Andrew Jeffreys	Cyfarwyddwr, Trysorlys Llywodraeth Cymru

Yr Amserlen

Bydd yr ymarfer yn dechrau ar 21 Mehefin, a bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd cyn toriad haf y Senedd (19 Gorffennaf). Bydd canlyniadau'r adolygiad yn cael eu cyhoeddi mewn Datganiad gan y Gweinidog cyn toriad yr haf. Cyhoeddir rhagor o fanylion yng Nghynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru yn ddiweddarach yn 2021.

Mae'n bosibl y bydd y grŵp yn cyfarfod yn achlysurol ar ôl i'r datganiad gael ei wneud os gwelir bod angen gweithio ar rai o'r camau gweithredu yn y tymor hwy.

Cyfathrebu

Bydd trafodaethau'r grŵp yn cael eu cynnal ar sail Chatham House ac ni fydd unrhyw gyfathrebu am ganlyniad terfynol y trafodaethau oni bai bod Llywodraeth Cymru yn cytuno y ceir gwneud hynny. Bydd cyfarfodydd y grŵp uchod yn cael eu hategu gan gyfarfodydd bord gron a chyfarfodydd eraill gyda rhanddeiliaid ehangach.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r Cylch Gorchwyl hwn ac yn anfon y nodiadau am y cyfarfodydd i aelodau'r grŵp.